

Hysbysiad o gais i gywiro'r gofrestr
Deddf Tiroedd Comin 2006
Is-adran: 19(2)

HYSBYSIR trwy hyn y gwnaed cais gan **Mr Laurence Alfred Hannington a Mrs Patricia Ann Hannington** i Gyngor Dinas a Sir Abertawe fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, mewn perthynas â pharccdir ar High Nook, Village Lane, y Mwmbwls, Abertawe SA3 4EB yng nghymuned Comin Bracelet yn ward y Mwmbwls, Abertawe

Mae'r ymgeiswyr yn haeru bod y tir sydd wedi'i ymylu'n goch ar y cynllun sy'n atodedig i'r cais yn rhan o ardal o dir sydd wedi'i gofrestru'n anghywir fel tir comin sy'n rhan o Gomin Bracelet, CL 3(s).

Os caiff y cais ei ganiatáu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, bydd yr awdurdod cofrestru'n rhoi'r penderfyniad hwn ar waith trwy waredu'r tir o'r Gofrestr Tiroedd Comin.

Rhaid i unrhyw un sydd am wneud sylwadau:

- Ddyfynnu rhif y cais sef 001/20
- Rhaid nodi enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cyflwyno sylwadau a natur diddordeb yr unigolyn hwnnw (os o gwbl) mewn unrhyw dir y mae'r cais yn effeithio arno. Gallwch hefyd gynnwys cyfeiriad e-bost;
- Rhaid i'r sawl sy'n cyflwyno sylwadau eu llofnodi;
- Rhaid nodi'r rhesymau drostynt
- Mae'n rhaid eu hanfon at: Yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, Cyngor Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN neu cofrestrutircomin@abertawe.gov.uk

Ni fydd sylwadau'n cael eu trin yn gyfrinachol, ond ymdrinnir â hwy yn unol â rheoliad 14, a phan gyfeirir y cais neu'r cynnig at berson penodedig i'w benderfynu yn unol â rheoliad 15, anfonir unrhyw sylwadau at y person penodedig.

Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau yw **29th July 2021**

Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r cais ar gael i'w harchwilio yn y cyfeiriad uchod, fodd bynnag mae angen gwneud apwyntiad. Gallwch weld yr hysbysiad a'r cynllun atodedig hefyd drwy fynd i'r tudalennau Tir Comin ar wefan Cyngor Abertawe.

<https://www.abertawe.gov.uk/HysbysiadauCofrestruTirComin>

Dyddiedig: **17th June 2021**

Tracey Meredith

Prif swyddog cyfreithiol

Gwasanaethau cyfreithiol, democrataidd a deallusrwydd busnes

Canolfan ddinesig

Abertawe

SA1 3SN

